# Cyfarfod Cynghrair Bro Llynnoedd

**Dydd Iau 7 Mai 2026 am 6:30pm**
**Yn rhithiol**

**Aelodau yn bresennol:** Neil Tuck - Cadeirydd, Eldra Hughes, Anne Jones, Ken Taylor, Charles Thornhill a Gwilym Jones
**Ymddiheuriadau:** Gareth Thomas a Joanne Ferry

| Eitem Agenda | Trafodaeth | Pwyntiau Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.<br>Croeso ac Ymddiheuriadau** | Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau a oedd yn bresennol. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithiol.<br>Derbyniwyd ymddiheuriad gan Gareth Thomas Joanne Ferry. | Derbyniwyd yr ymddiheuriad. |
| **2.<br>Datganiadau o fuddiant** | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau'r agenda. | Dim camau gweithredu. |
| **3.<br>Croeso i aelodau newydd** | Nodwyd nad oedd unrhyw aelodau newydd i'w croesawu yn y cyfarfod hwn. | Dim camau gweithredu. |
| **4.<br>Adborth gan Swyddog Cyllid Medrwn Môn** | **Gwybodaeth am Ffair Gyllid Ynys Môn**<br>Rhoddwyd diweddariad am Ffair Gyllid a gynhelir yng Nghanolfan Fusnes Llangefni ar 8 Mehefin 2026. Bydd angen archebu lle ymlaen llaw.<br>Nodwyd y bydd cynrychiolwyr o sawl sefydliad cyllido a chymorth yn bresennol, gan gynnwys:<br>• Cyngor Sir Ynys Môn - Ieuenctid a Thai<br>• Cymdeithas Elusennol Ynys Môn<br>• Cronfeydd Treftadaeth a Chymunedol y Loteri Genedlaethol<br>• Grant Cymunedol National Grid Penrhos<br>• Ysgellog Wind Farm, NRS a Community Foundation Wales<br>**Archebu lle:** https://www.eventbrite.com/e/1988983793067?aff=oddtdtcreator<br>**Hyfforddiant am ddim**<br>Rhoddwyd gwybodaeth hefyd am hyfforddiant am ddim gan Sheree Ellingworth, Swyddog Trydydd Sector a Lles Medrwn Môn, ar gyfer gwirfoddolwyr, grwpiau a hybiau ar draws yr Ynys.<br>Nodwyd bod y sesiynau yn cynnwys diogelu, bod yn ymddiriedolwr, ysgrifennu ceisiadau cyllid llwyddiannus, datblygu strategaeth gyllido, monitro ac adrodd, a Canva i ddechreuwyr.<br>Gellir archebu lle drwy gysylltu â post@medrwnmon.org. | • Anne i rannu'r ddolen archebu ar gyfer y Ffair Gyllid gydag aelodau.<br>• Aelodau i archebu lle os ydynt am fynychu.<br>• Aelodau i rannu'r cyfleoedd hyfforddi gyda grwpiau lleol perthnasol. |
| **5.<br>Materion eraill / UFA** | **Mapio'r Ward**<br>Trafodwyd yr angen i ddiweddaru gwybodaeth mapio ardal y Ward. Nodwyd y bydd y gwaith hwn yn helpu i adnabod adnoddau cymunedol, bylchau mewn darpariaeth, anghenion lleol a chyfleoedd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.<br>Croesawyd aelodau i ymuno â'r sesiynau mapio er mwyn cyfrannu gwybodaeth leol a chefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth.<br>**Ariannol**<br>Balans yr arian yn y banc £519.58 | • Anne i drefnu dyddiadau ar gyfer y sesiynau mapio.<br>• Anne i ddiweddaru aelodau ar y trefniadau.<br>• Aelodau i ystyried pa wybodaeth neu gysylltiadau lleol y gellir eu rhannu fel rhan o'r gwaith mapio. |
| **6.<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Nodwyd y bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau. | Dyddiad a threfniadau'r cyfarfod nesaf i'w cadarnhau a'u cylchredeg i aelodau. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 18:55.**

**Neil Tuck**
**Cadeirydd**